

Diweddariad Mannau Glas – Cymru: ein dull o asesu datganiadau o ddiddordeb

Yn gynharach eleni, fe wnaethom lansio [Mannau Glas – Cymru](#), gyda galwad agored am ddatganiadau o ddiddordeb ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi cymunedau i wella eu dyfroedd croyw lleol. Hanner ffordd drwy'r broses dyfarnu grantiau, mae Jenny Wheeldon, Rheolwr Partneriaethau Dyfroedd Croyw Esmée, yn rhannu ein dull o asesu ceisiadau a beth sydd nesaf.

I ddysgu mwy am ein ffordd o feddwl y tu ôl i ddatblygu Mannau Glas – Cymru a'r hyn yr oeddem yn bwriadu ei gyflawni, darllenwch flog blaenorol Jenny: [Gweithio mewn partneriaeth i gefnogi manau glas yn y Deyrnas Unedig](#).

Wrth ddatblygu Mannau Glas – Cymru, fe wnaethon ni benderfynu mabwysiadu dull gwahanol o gyllido, yn y gobaith o annog partneriaethau newydd ac anghyffredin, a'n helpu i gyrraedd y tu hwnt i'n rhwydweithiau a'n partneriaethau presennol, sydd eisoes wedi hen ennill eu plwyf. Drwy'r rhaglen, roeddem am gefnogi gwaith sy'n ymgysylltu â'r cymunedau amrywiol mewn lle ac sy'n cael ei siapio gan y cymunedau amrywiol hynny, ac sy'n profi ffordd newydd o weithio.

Cynigiodd Mannau Glas – Cymru grantiau datblygu rhwng £10,000 a £60,000 i gefnogi sefydliadau i ddatblygu eu syniadau dros gyfnod o flwyddyn. Yn ogystal â'r grantiau, rydym hefyd yn datblygu dull dysgu i gefnogi a hwyluso dysgu ar gyfer y prosiectau a ariennir, a rhannu'r hyn a ddysgwn yn ehangach.

Datblygu Mannau Glas – Cymru a'r alwad agored

Yn flaenorol, roeddem wedi comisiynu [Sefydliad Ymchwil Dŵr Prifysgol Caerdydd](#) i gynnal adolygiad o sefydliadau sy'n gweithio i adfer yr amgylchedd dyfroedd croyw ledled y DU. Roedd hyn yn helpu i lywio ein rhaglen Mannau Glas. Rydyn ni'n canolbwyntio ar Gymru oherwydd rydyn ni'n llai cyfarwydd â'r gwaith sy'n cael ei wneud yno, ac rydyn ni'n awyddus i ddysgu mwy am waith y tu hwnt i'n rhwydweithiau arferol.

Yn gynnar yn 2023, cynhaliodd tîm Ein Byd Natur, Esmée, sesiwn wybodaeth yng Nghaerdydd gydag ymddiriedolaethau afonydd, cyrff cyhoeddus, grwpiau ymgyrchu, ymddiriedolaethau bywyd gwyllt ac ymchwilwyr wedi mynychu. Roedd y sesiwn yn gyfle i amlinellu ein syniadau ar gyfer galwad am gyllid sy'n benodol i Gymru a chasglu adborth, a wnaeth ein helpu i ddatblygu'r rhaglen ymhellach a galwad agored am brosiectau. Hefyd, fe wnaethom gynnal [gweminar](#) ar gyfer darpar ymgeiswyr, a darparu cyfeiriad e-bost pwrpasol ar gyfer cwestiynau. Yna, cafodd y cyfnod galw ei agor rhwng 21 Mawrth a 2 Mai 2023.

Datganiadau o ddiddordeb

Cawsom 39 o ddatganiadau o ddiddordeb cymwys yn ogystal ag un drwy ein prif broses ymgeisio, gyda chyfanswm gwerth £1.9m. Cafodd y rhain i gyd eu hasesu gan banel yn unol â meini prawf Mannau Glas – Cymru, gydag 8 prosiect yn dod i gyfanswm o £456k ar y rhestr fer. Maent yn bodloni amrywiaeth o nodau'r rhaglen, gan gynnwys ymgysylltu â chymunedau y mae amddifadedd, ffermio, y celfyddydau a phartneriaethau newydd yn effeithio arnynt. Rydym yn rhagweld y byddwn yn cael y cynigion erbyn diwedd mis Medi a'n nod yw gwneud penderfyniad erbyn mis Rhagfyr 2023.

Isod, rydym yn rhannu mwy am ein dull asesu, ynghyd â throsolwg o'r 8 prosiect a wahoddwyd i gyflwyno cynnig llawn, a chrynodeb o'r cynnig llawn, a chrynodeb o'r datganiadau o ddiddordeb a gawsom.

Rydyn ni'n ddiolchgar am y diddordeb yn y rhaglen hon a'r adborth rydyn ni wedi'i gael drwy ei datblygu. Gobeithio ei bod yn ddefnyddiol rhannu ein proses â chyd-arianwyr amgylcheddol yn ogystal â phawb sydd wedi gwneud cais. Edrychwn ymlaen at rannu rhagor o wybodaeth â chi maes o law.

Ein dull asesu

Cafodd ein dull asesu ei lywio gan ein profiad blaenorol o asesu cynigion a gyflwynwyd i fenter Riverwoods sy'n cefnogi prosiectau sy'n ceisio creu rhwydwaith o goetiroedd ffyniannus ar lannau afonydd yn yr Alban, a'n cyllid Ailddyfeisio Celfyddydau Perfformio, a oedd yn darparu cymorth ychwanegol i sefydliadau celfyddydol rydym yn eu hariannu i gefnogi eu cynlluniau ailagor wedi'r pandemig.

1. Roedd y panel asesu yn cynnwys tri aelod o dîm Ein Byd Naturiol a phedwar ymgynghorydd ifanc o [Rwydwaith Cynnwys Pobl Ifanc](#) yn Esmée. Roedd gweithio gyda'r ymgynghorwyr ifanc wedi helpu i ddod â syniadau ac arbenigedd pobl ifanc i gyfoethogi a llywio'r broses o wneud penderfyniadau yn y rhaglen Mannau Glas, a oedd yn amhrisiadwy i ni.
2. I ddewis restr hir o ddatganiadau o ddiddordeb, fe wnaethom ddatblygu [canllawiau sgorio a meini prawf](#) sy'n adlewyrchu nodau cyffredinol ar gyfer rhaglen Mannau Glas. Roedd y meini prawf yn cynnwys ystyried sut roedd y datganiad o ddiddordeb yn gwneud y canlynol:
 - Sut y byddant yn helpu pobl a sefydliadau i ofalu am eu dyfroedd croyw lleol
 - Sut y byddant yn gweithio gyda ac yn cael eu siapio gan gymunedau amrywiol, yn enwedig y cymunedau sy'n wynebu gwahaniaethu neu rwystrau rhag cael mynediad at natur
3. Ar ôl y dyddiad cau ar gyfer yr alwad, sgoriodd pob aelod o'r panel bob datganiad o ddiddordeb cymwys. Yna, fe wnaethant gyfarfod ar 23 Mai i adolygu'r sgoriau a gasglwyd a chytuno ar restr hir o 15 o ddatganiadau o ddiddordeb.
4. Fe wnaethom wahodd yr ymgeiswyr ar y rhestr hir i gael galwad ddilynol gydag aelodau o'r panel. Cyn pob galwad, rhoddwyd crynodeb i'r panel o'r datganiad o ddiddordeb, y sgorio cychwynnol a'r cwestiynau dilynol. Ar ddiwedd pob galwad, aeth y panel ati i adolygu'r cais ar sail yr holl wybodaeth a roddwyd, gan gytuno ar argymhelliad dros dro i wrthod neu wahodd i gyflwyno cynnig llawn.
5. Ar ôl cwblhau'r holl alwadau dilynol, fe wnaeth y panel gyfarfod ar 13 Mehefin i adolygu a chytuno ar yr argymhellion. Mae cyfanswm o 8 o'r 15 o ddatganiadau o ddiddordeb sydd ar y rhestr hir wedi cael gwahoddiad i gyflwyno cynnig llawn, sy'n dangos sut y gallent ddefnyddio cyllid blwyddyn i ddatblygu prosiectau gyda chymunedau er budd dyfroedd croyw.

Trosolwg o'r 8 prosiect a wahoddwyd i gyflwyno cynnig llawn

Mae'r 8 prosiect rydym wedi'u gwahodd i gyflwyno cynnig llawn, yn cwmpasu'r holl feini prawf Mannau Glas – Cymru, sydd i'w gweld yn y tabl isod. Mae rhai prosiectau'n bodloni mwy nag un o'r meini prawf.

Wedi bodloni'r Meini Prawf	Wedi cael gwahoddiad i gyflwyno cynnig llawn
Cymunedau y mae amddifadedd yn effeithio arnynt	3
Yn dechnegol newydd	1
Cyllid arloesol	2
Cysylltiedig â ffermio	3
Y Celfyddydau	2
Partneriaethau newydd	2
Rheoli llifogydd naturiol	1

Crynodeb o'r broses a'r ymgeiswyr

Fe wnaethom asesu 40 o ddatganiadau o ddiddordeb yn erbyn meini prawf Mannau Glas - Cymru. Cytunodd y panel asesu ar y restr hir o 15. Yna, fe wnaethom siarad â'r holl ymgeiswyr ar y rhestr hir i gael rhagor o wybodaeth am eu datganiad o ddiddordeb. Yna cytunodd y panel dethol ar 8 o ddatganiadau terfynol o ddiddordeb i'w gwahodd i gyflwyno cynnig llawn.

Math o sefydliad	Nifer y ceisiadau a dderbyniwyd	Nifer a gafodd eu rhoi ar y rhestr hir a'u gwahodd am alwad ffôn wedi hynny	Nifer wedi cael gwahoddiad i gyflwyno cynnig llawn
Cymdeithas/Ymddiriedolaeth	2	0	0
Corff Anllywodraethol Amgylcheddol	7	3	2
Ymddiriedolaeth Natur	3	2	1
Ymddiriedolaeth Afonydd	5	4	3
Ymgyrchu	7	2	0
Sefydliad y Gyfraith	1	0	0
Y Celfyddydau	2	0	0

Math o sefydliad	Nifer y ceisiadau a dderbyniwyd	Nifer a gafodd eu rhoi ar y rhestr hir a'u gwahodd am alwad ffôn wedi hynny	Nifer wedi cael gwahoddiad i gyflwyno cynnig llawn
Cyngor	1	0	0
Cominwyr	1	0	0
Fforwm arfordirol	1	1	1
Gerddi/parciau	2	0	0
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol	1	0	0
Cyswllt Academaidd	3	1	0
Ffermio a bwyd	3	1	0
Cwmni Buddiannau Cymunedol	1	1	1
Cyfanswm	40	15	8
Gwerth	£1.9m		£456k